Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-721, P-05-767 & P-05-792
Ein cyf/Our ref KS/01664/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

19 Gorffennaf 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr ar 4 Mehefin ynghylch Deiseb P-05-721 Terfyn Cyflymder ym Mhenegoes, Deiseb P-05-767 Cefnffordd yr A487 Trwy Dre-Taliesin a Deiseb P-05-792 i estyn y terfyn cyflymder 40mya ym Mlaenporth. Rwy'n ymddiheuro am fod mor hir yn eich ateb.

Mae Adolygu Terfyn Cyflymder yn broses hir a manwl. Ar gyfer pob darn o'r gyffordd, rhaid inni edrych yn gyntaf ar ganlyniadau'r adolygiad blaenorol, gan gynnwys hanes unrhyw gynlluniau sydd wedi'u cynnal yn sgil yr adolygiad hwnnw, yn ogystal ag ar sylwadau a phryderon sydd wedi dod i law oddi wrth randdeiliaid a'r gymuned leol. Bydd yr wybodaeth yn ein helpu i benderfynu ble a phryd y dylem gasglu rhagor o dystiolaeth o symudiadau traffig yn ogystal â chasglu data mwy cyffredinol am gyflymder ar adegau gwahanol o'r dydd. Byddwn wedyn yn dadansoddi'r data a gasglwyd.

Os bydd y canlyniadau yn unrhyw ardal yn dangos bod problemau diogelwch, bydd fy swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer lleihau'r peryglon hynny. Gallai hynny, ymhlith pethau eraill, olygu gwella'r arwyddion a'r marciau ffordd neu ostwng neu orfodi'r terfyn cyflymder. Bydd yn rhaid rhoi'r holl waith a gynigir ledled Cymru yn nhrefn blaenoriaeth dros 3-4 blynedd, a'i gynnal fel y bydd arian yn caniatáu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er y gall ymddangos nad oes fawr yn cael ei wneud, gallaf eich sicrhau bod fy swyddogion yn gweithio'n ddiflino i ystyried yr opsiynau ar gyfer sawl man yng Nghymru. Er y byddai'n rhy gynnar eto rhoi enghreifftiau i'r Pwyllgor o ganlyniadau unrhyw asesiadau sydd wedi'u cynnal o dan yr adolygiad hwn, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar-lein pan fydd ar gael. Yn y cyfamser, efallai y carai'r Pwyllgor ystyried y wefan bresennol sy'n dangos canlyniad yr adolygiad diwethaf: http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview.aspx?lang=cy-GB.

Yn Gywir

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport